# Trawsgrifiad

**Felly, rydych chi eisiau bod yn nyrs? Cyflwyniad byr i nyrsio**

**SIARADWR 1:** Beth wnaeth eich ysbrydoli chi i fod yn nyrs?

**SIARADWR 2:** Doeddwn i erioed wedi meddwl am fod yn nyrs cyn i mam fynd yn sâl. Ar y pryd, roeddwn i'n gweithio ym maes yswiriant. A dwi'n cofio gwylio'r tîm lliniarol yn delio â mam, a sut roedden nhw'n ei thrin gyda chymaint o barch a charedigrwydd. Dwi'n cofio gwylio hynny a meddwl, "byddwn i wrth fy modd yn gallu gwneud hynny".

**SIARADWR 3:** Yr hyn sy'n rhoi boddhad yn y swydd yw gwybod fy mod wedi gallu helpu rhywun i symud ymlaen gyda'i ofal neu ei nodau, dim ots pa mor fach yw fy rhan i.

**SIARADWR 4:** Roedd tyfu i fyny gyda nain a gweld sut roedd ei salwch corfforol wedi effeithio ar ei hiechyd meddwl wedi fy annog i ddilyn gyrfa mewn nyrsio iechyd meddwl. 'Nes i wneud cais am swydd fel cynorthwyydd nyrsio ar ward seiciatrig acíwt, a dwi heb edrych yn ôl ers hynny.

**SIARADWR 5:** Yn yr ysgol gynradd, dwi'n cofio helpu i setlo plentyn ychydig flynyddoedd yn iau na fi. Roedd ganddo syndrom Down. Ac un tro, 'nes i glywed ei rieni'n dweud wrth fy athro nad oedden nhw erioed wedi gweld eu mab yn cael ei drin fel rhywun cydradd gan un o'i gyfoedion. Er fy mod i mor ifanc, dwi'n cofio pa mor deimladwy oedd hynny. A dwi'n meddwl bod fy angerdd yn deillio o hynny. Dwi'n teimlo'n gryf am eirioli dros hawliau pobl ag anableddau dysgu a chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael gafael ar ofal a gwasanaethau.

**SIARADWR 6:** Roeddwn i'n gwybod fy mod i eisiau bod yn Nyrs Anableddau Dysgu gan fy mod i'n mwynhau ffurfio perthynas hirdymor gyda fy nghleifion. Roeddwn i eisiau bod yn ddylanwad cyson a chadarnhaol ar fywydau'r bobl dwi'n eu cefnogi.

**SIARADWR 1:** Beth ydych chi wedi'i fwynhau am eich profiad hyd yma?

**SIARADWR 3:** Dwi wedi mwynhau amrywiaeth fy lleoliadau yn fawr. Mae hyn wedi fy ngalluogi i feddwl am ofal cleifion o wahanol safbwyntiau.

**SIARADWR 2:** Dwi wrth fy modd â rhan ymarferol y cwrs. Dwi wrth fy modd yn bod yn ymarferol, yn cwrdd â phobl, ac yn gwrando ar eu straeon neu eu hanesion. Dwi wedi mwynhau bob dydd o bob lleoliad gwaith hyd yma.

**SIARADWR 4:** Dwi wedi mwynhau sawl agwedd ar y rhaglen nyrsio, ond yn bennaf, dwi wedi mwynhau hyblygrwydd a hwylustod dysgu o bell.

**SIARADWR 1:** Pam wnaethoch chi ddewis astudio gyda'r Brifysgol Agored?

**SIARADWR 4:** Yn academaidd, doeddwn i byth yn hoff iawn o'r ystafell ddosbarth, ac roeddwn i'n hoffi'r syniad o gael cynllun astudio mwy hyblyg.

**SIARADWR 6:** Y Brifysgol Agored oedd y darparwr perffaith ar gyfer astudio gan fod y dysgu'n hyblyg a bod modd ei wneud pan fydd hi'n gyfleus i mi yn bennaf, hyd yn oed os yw hynny'n golygu mewngofnodi i ddarllen erthygl tri o'r gloch yn y bore ar shifft nos dawel.

**SIARADWR 3:** Mae astudio gyda'r Brifysgol Agored yn golygu eich bod yn gallu astudio gartref, ac yn gallu trefnu'r astudiaeth o amgylch eich bywyd a'ch gwaith.